




EGLWYS GADEIRIOL LLANDAF



LLANDAFF CATHEDRAL



GWASANAETH I GROESAWU

AC

ARGYCHWYN GWEINIDOGAETH

Y WIR BARCHEDIG MARY STALLARD

ESGOB LLANDAF

Dydd Sadwrn, Ebrill 29 2023

Ganol Dydd

Croeso i Eglwys Gadeiriol Llandaf



Mae system dolen glyw ar gael yn y Gadeirlan i ddefnyddwyr teclynnau cymorth clyw. Dylai defnyddwyr droi eu teclynnau cymorth clyw i'r gosodiad T.



Gofynnir i chi sicrhau bod eich ffôn symudol neu unrhyw declyn cyfathrebu cludadwy arall wedi'i ddiffodd neu wedi'i osod ar ddistaw.



Gofynnir yn garedig i chi beidio â thynnu lluniau, ffilmio na recordio sain yn y Gadeirlan ar unrhyw adeg yn ystod y gwasanaeth na chwaith yn ystod ymarferion côr. Gofynnir hyn er mwyn resymau diogelu a hawlfraint.

DONATE

Cynhelir casgliad yn ystod y gwasanaeth. Gallwch hefyd gyfrannu trwy ddefnyddio'r teclynnau digyffwrdd wrth y drws gorllewinol, neu trwy anfon neges destun fel y canlyn:

I gyfrannu £5 anfonwch neges destun LLANDAFF i 70970

I gyfrannu £10 anfonwch neges destun LLANDAFF i 70191

Bydd cost y neges destun yn unol â chostau arferol eich rhwydwaith. I weld y Telerau ac Amodau ewch i www.easydonate.org

giftaid it

Gofynnir i chi ystyried cyfrannu trwy ddefnyddio'r cynllun Cymorth Rhodd trwy ddefnyddio'r amlenni sydd ar gael.



Bydd y gwasanaeth yn gael ei ffrydio'n fyw ar YouTube. Bydd y gwasanaeth ar gael ar sianel y Gadeirlan ar ôl i'r gwasanaeth orffen. Mynnwch air â Steward os oes gennych unrhyw bryderon ynglŷn ag ymddangos ar y ffrydiad.

*Cenir y gwasanaeth gan Gôr Cadeiriol Llandaf, o dan arweiniad Stephen Moore, y Cyfarwyddwr Cerdd.
Cenir yr organ gan Aaron Shilson, y Cyfarwyddwr Cerdd Cynorthwyol. .*

CERDDORIAETH CYN Y GWASANAETH

Toccata yn F BWV 540i

Johann Sebastian Bach (1685-1750)

Veni Creator Spiritus

Nicolas de Grigny (1672-1703)

En Taille à 5

Fugue à 5

Duo

Récit de Cromorne

Dialogue sur les grands Jeux

TREFN Y GWASANAETH

EMYN YR YMGYNNULL

Sefyll wrth i'r orymdaith ddod i mewn. Yn ystod Emyn yr Ymgynnull bydd yr Archddiaconiaid a'r Deon yn mynd at ben Gorrlewinol Corff yr Eglwys.



Pawb

Tydi a wnaeth y wyrth, O! Grist, Fab Duw,
Tydi a roddaist imi flas ar fyw;
Fe gydiaist ynof trwy dy Ysbryd Glân,
Ni allaf, tra bwyf byw, ond canu'r gân;
'Rwyf heddiw'n gweld yr harddwch sy'n parhau.
Rwy'n teimlo'r ddwyfol ias sy'n bywiocáu;
Mae'r Haleliwia yn fy enaid i,
A rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i Ti.

Tydi yw Haul fy nydd, O! Grist y Groes,
Yr wyt yn harddu holl orwelion f'oes;
Lle'r oedd cysgodion nos, mae llif y wawr,
Lle'r oeddwn gynt yn ddall, 'rwy'n gweld yn awr;
Mae golau imi yn dy berson hael,
Penllanw fy ngorfoledd yw dy gael;
Mae'r Haleliwia yn fy enaid i,
A rhoddaf, Iesu, fy mawrhad i Ti.

Yn parhau trosodd...



You call us forth, great Shepherd of the fold,
your risen life the mystery we behold;
your broken body in your Church made whole,
the Lamb of God's communion feeds the soul;
though nights be long, though doubts and sorrows haunt,
we know your face, the depths no longer daunt;
your Alleluia now my heart's true call,
I'll praise you always, Christ, my all in all.

You are the source of life, Creation's morn,
you true revealer of true love's true form;
for you we live, to you we would return,
and for your grace our groaning nature yearns;
we hear your melody in life and death,
our hope's perfection in your Spirit's breath;
your Alleluia now my heart's true call,
I'll praise you always, Christ, my all in all.

Geiriau: W. Rhys Nicholas (1914-96)

Cerddoriaeth: PANTYFEDWEN
Morris Eddie Evans (1890-1984)

Y RHAGYMADRODD

Trowch i wynebu'r Drws Gorllewinol, os gwelwch yn dda. Mae'r Deon yn cyflwyno'r gwasanaeth o Risiau Gorllewinol yr Eglwys Gadeiriol:

Y Deon Fy mrodyr a'm chwirydd yng Nghrist, deuwn ynghyd heddiw ym mhresenoldeb yr Hollalluog Dduw i groesawu ac argychwyn gweinidogaeth Mary, 73^{ain} Esgob Llandaf, a'i gosod yng Nghadair Esgobol ei Heglwys Gadeiriol. Yn olynnydd i Dyfrig a Theilo, gelwir Mary yn awr i fod yn Esgob i ni yn y lle hwn ar yr adeg hon; prif fugail praid Crist yn yr Esgobaeth hon a gwarcheidwad ffydd yr Apostolion. Yn y ffydd hon fe'n gelwir drwy'r oesoedd i ddilyn Crist a'i wasanaethu'n llawen. Wrth iddi ddechrau ar ei gweinidogaeth yn ein plith, gweddiwn am ffyddlondeb yn ein gorchwyl a nerth i ddilyn ein galwad i fod yn Bobl Dduw.

DAW'R ESGOB I MEWN I'R EGLWYS GADEIRIOL

Mae'r Esgob Mary yn cyrraedd y drws Gorllewinol ac yn curo deirgwaith â'i ffon.

Y Deon Agorer y drysau, er mwyn inni groesawu ein Heskob.

Agorer y drysau, er mwyn inni groesawu ein Heskob.

Y Deon Yr Esgob Mary, yr ydym yn dy groesawu yn enw ein Harglwydd Iesu Grist i'th Esgobaeth a'th Eglwys Gadeiriol.

Pawb **Yr ydym yn dy groesawu yn enw'r Arglwydd.**

Unigolyn ieuanc Yr Esgob Mary, buom yn edrych ymlaen at dy ddyfod – tyrd i'n plith yn un sy'n gwasanaethu.

Yr Aarchddiaconiaid

Yr Esgob Mary, daeth dy bererindod yn y ffydd â thi i'r man hwn. Dangosodd Duw yr hyn y mae'n gofyn gennyf: i fod yn gyfiawn, i garu trugaredd a cherdded yn ostyngedig gyda'th Dduw.

Y Esgob Gyfeillion, gwasanaethyddes Iesu Grist ydwyf fi, a deuaf yn erfyn am ras Duw i gyhoeddi cariad Crist a, gyda chwi, i addoli Duw â chalon, enaid, meddwl a nerth.

Yn ystod canu'r Jubilate Deo aiff Canghellor yr Esgobaeth a'r Cofrestrydd i'r Pwlpitwm ac arweinir yr Esgob drwy Gorff yr Eglwys.

Côr
Cenwch yn llafar i'r Arglwydd: yr holl ddaear
Gwasanaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd: deuwch o'i flaen ef â chân.
Gwybyddwch mai yr Arglwydd sydd Dduw,
efe a'n gwnaeth ac nid ni ein hunain:
ei bobl ef ydym a defaid ei borfa.
Ewch i mewn i'w byrth ef â diolch, ac i'w gynteddau â mawl:
Diolchwch iddo a bendithiwch ei enw.
Canys da yw yr Arglwydd, ei drugaredd sydd yn dragywydd:
a'i wirionedd hyd genhedlaeth a chenedlaeth.

Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab:
ac i'r Ysbryd Glân;
Megis yr oedd yn y dechrau, y mae'r awr hon, ac y bydd yn wastad:
yn oes oesoedd. Amen.

Geiriau: Jubilate Deo
Salm 100

Cerddoriaeth: William Walton (1902-83)

DARLLEN Y MANDAD

Eistedd.

Mae'r Esgob yn derbyn mandad yr Archesgob o law'r Cofrestrydd a'i gyflwyno i'r Deon, gan ddweud:

Mr Deon, cyflwynaf i ti fandad Andrew, ein Harchesgob, at fy sefydlu a'm gosod.

Mae'r Deon yn rhoi'r mandad i Ganghellor yr Esgobaeth, sy'n ei ddarllen ac yna'n annerch yr Esgob, gan ddweud:

Yr Esgob Mary, yn ôl yr arfer, yr wyf yn dy wahodd i gymryd y llw penodedig.

Mae Cofrestrydd yr Esgobaeth yn gwahodd yr Esgob i roi ei llaw ar Feibl yr Eglwys Gadeiriol, a ddefnyddiwyd wrth ailgysegru Corff yr Eglwys yn 1960.

Yr Esgob
Yn enw Duw, Amen. Yr wyf fi, Mary, Esgob Llandaf drwy ganiatâd dwyfol, yn addo parchu, cynnal a diogelu hawliau, breintiau a rhyddfrefiniau'r Eglwys yn yr Esgobaeth hon a'r Eglwys Gadeiriol hon; a cheisiaf wasanaethu mewn gwirionedd, cyfiawnder, trugaredd a chariad, gan amlygu fy hun, ym mhob peth, yn esiampl i'r praidd. Boed Duw yn gymorth imi. Amen.

Mae'r Esgob yn cusanu'r Beibl.

Y Deon Yr Esgob Mary, bydded i Dduw dy ddonio â gras i gyflawni'r addewid hwn.

Saif yr Esgob tra cyflwynir y meitr iddi gan yr Archddiaconiaid.

Mae'r Deon yn rhoi Crosier yr Esgobaeth i'r Esgob, a dweud:

Yr Esgob Mary, derbyn di Grosier yr Esgobaeth yn arwydd o'th awdurdod a'th ofal yn Esgobaeth Llandaf. Gwylia dros y praidd y penodwyd ti yn Fugail arno gan yr Ysbryd Glân.

Pawb **Calonoga'r ffyddloniaid, adfer y colledig, adeilada Gorff Crist.**

EMYN

Sefyll. Yn ystod yr emyn, bydd yr Archddiaconiaid a Chofrestrydd yr Esgobaeth yn mynd i'w seddi. Bydd yr Esgob, a arweinir gan y Deon a Changhellor yr Esgobaeth, yn mynd at Gadair yr Esgob.



Pawb 1.
Will you come and follow me
if I but call your name?
Will you go where you don't know
and never be the same?
Will you let my love be shown,
will you let my name be known,
will you let my life be grown
in you and you in me?

Yn parhau trosodd...



2.
Will you leave yourself behind
if I but call your name?
Will you care for cruel and kind
and never be the same?
Will you risk the hostile stare
should your life attract or scare,
will you let me answer prayer
in you and you in me?

3.
Will you let the blinded see
if I but call your name?
Will you set the prisoners free
and never be the same?
Will you kiss the leper clean
and do such as this unseen,
and admit to what I mean
in you and you in me?

4.
Will you love the 'you' you hide
if I but call your name?
Will you quell the fear inside
and never be the same?
Will you use the faith you've found
to reshape the world around
through my sight and touch and sound
in you and you in me?

5.
Lord, your summons echoes true
when you but call my name.
Let me turn and follow you
and never be the same.
In your company I'll go
where your love and footsteps show.
Thus I'll move and live and grow
in you and you in me.

GOSOD YR ESGOB

Cymer y Deon yr Esgob wrth ei llaw dde a'i gosod yng Nghadair yr Esgob.

Y Deon Yn rhinwedd mandad Andrew, Archesgob Cymru, yr wyf fi, Richard Peers, Deon Llandaf, yn dy sefydlu a'th osod di, Mary, Esgob Llandaf drwy ganiatâd dwyfol, i wir feddiannaeth o Esgobaeth Llandaf, ynghyd â'r hawliau a'r anrhydeddau a'r holl gyfleon i wasanaethu; a gosodaf di yng Nghadair Esgobol yr Eglwys Gadeiriol hon yn enw ein Harglwydd Iesu Grist.

Pawb Yr Arglwydd a geidw dy fynediad a'th ddyfodiad, o'r pryd hwn hyd yn dragywydd.
Amen.

Pawb Bydded i Dduw dy gynnal a'th sylfaenu mewn cyfiawnder a sancteiddrwydd, a bendith Duw hollalluog, y Tad, y Mab a'r Ysbryd Glân a fo arnat ac a drigo gyd thi yn wastadol.
Amen.

Aiff yr Esgob i sefyll ar ris y Presbyteri.

Y CYFLWYNO

Y Deon Fy mrodyr a'm chwiorydd yng Nghrist, cyflwynaf i chwi, Mary, Esgob Llandaf.

Pawb **Yr ydym yn dy groesawu yn enw Crist: diolch a fo i Dduw.**

Curir dwylo i gyfarch yr Esgob.

GLORIA

Yn ystod canu'r Gloria, cyflwyna'r Deon gynrychiolwyr dinesig ac eciwmenaidd i'r Esgob.

Côr	Gloria in excelsis Deo, et in terra pax hominibus bonae voluntatis. Laudamus te, benedicimus te, adoramus te, glorificamus te. Gratias agimus tibi propter magnam gloriam tuam.	Gogoniant yn y goruchaf i Dduw, ac ar y ddaear tangnefedd i'r rhai sydd wrth ei fodd. Moliannwn di, bendithiwn di, addolwn di, gogoneddwn di, diolchwn i ti am dy fawr ogoniant.
	Domine Deus, Rex caelestis, Deus Pater omnipotens, Domine Fili unigenite, Iesu Christe: Domine Deus, Agnus Dei, Filius Patris. Qui tollis peccata mundi, miserere nobis. Qui tollis peccata mundi, suscipe deprecationem nostram. Qui sedes ad dexteram Patris, miserere nobis.	Arglwydd Dduw, Frenin nefol, Dduw Dad Hollalluog. O Arglwydd, yr Unig Fab, Iesu Grist; O Arglwydd Dduw, Oen Duw, Fab y Tad, sy'n dwyn ymaith bechod y byd, trugarha wrthym; tydi sy'n eistedd ar ddeheulaw Duw Dad, derbyn ein gweddi.
	Quoniam tu solus Sanctus. Tu solus Dominus. Tu solus Altissimus, Iesu Christe. Cum Sancto Spiritu, in gloria Dei Patris. Amen.	Oherwydd ti yn unig sy'n Sanctaidd; ti yn unig yw'r Arglwydd; ti yn unig, O Grist, gyda'r Ysbryd Glân, sydd Oruchaf yng ngogoniant Duw Dad. Amen.

Cerddoriaeth: Missa Brevis
John Rutter (b.1945)

CYHOEDDI'R GAIR

Archesgob Yr Arglwydd y fo gyda chwi
Pawb: **a hefyd gyda thi.**

Y COLECT

Archesgob Dad tragwyddol, edrych yn drugarog ar Mary dy wasanaethferch; bywioga'r ffydd sydd ynddi fel y bo'n fflam; tywys hi a bydd yn gydymaith iddi; ysbrydola hi i ddirnad dy ewyllys a dyro iddi'r nerth i'w chyflawni; gwna hi'n barod i ledaenu efengyl tangnefedd; galluoga hi i arwain yn ddewr a chariadus; drwy Iesu Grist ein Harglwydd.
Pawb **Amen.**

Eisteddwch.

Y DARLLENIAD CYNTAF

Darllenydd Darlleniad o Actau'r Apostolion.

Yr oedd yn Jopa ryw ddisgybl o'r enw Tabitha; ystyr hyn, o'i gyfieithu, yw Dorcas. Yr oedd hon yn llawn o weithredoedd da ac o elusennau. Yr adeg honno fe glafychodd, a bu farw. Golchasant ei chorff a'i roi i orwedd mewn ystafell ar y llofft. A chan fod Lyda yn agos i Jopa, pan glywodd y disgyblion fod Pedr yno, anfonasant ddau ddyn ato i ddeisyf arno, "Tyrd drosodd atom heb oedi." Cododd Pedr ac aeth gyda hwy. Wedi iddo gyrraedd, aethant ag ef i fyny i'r ystafell, a safodd yr holl wragedd gweddwon yn ei ymyl dan wylo a dangos y crysau a'r holl ddillad yr oedd Dorcas wedi eu gwneud pan oedd gyda hwy. Ond trodd Pedr bawb allan, a phenliniodd a gweddïo, a chan droi at y corff meddai, "Tabitha, cod." Agorodd hithau ei llygaid, a phan welodd Pedr, cododd ar ei heistedd. Rhoddodd yntau ei law iddi a'i chodi, a galwodd y saint a'r gwagedd gweddwon, a'i chyflwyno iddynt yn fyw. Aeth y peth yn hysbys drwy Jopa i gyd, a daeth llawer i gredu yn yr Arglwydd.

Actau 9. 36-42

Pawb Dyma air yr Arglwydd.
Diolch a fo i Dduw.

Mae'r côr yn canu:

SALM 116. 11- DIWEDD

Beth a dalaf i'r Arglwydd:
am ei holl ddoniau i mi?

Ffiol iachawdwriaeth a gymeraf:
ac ar enw yr Arglwydd y galwaf.

Fy addunedau a dalaf i'r Arglwydd:
yn awr yng ngŵydd ei holl bobl ef.

Gwerthfawr yng ngolwg yr Arglwydd:
yw marwolaeth ei saint ef.

O Arglwydd yn ddiau dy was di ydwyf fi, dy was di ydwyf fi:
mab dy wasanaethwraig, datodaist fy rhwymau.

Aberthaf i ti aberth moliant:
a galwaf ar enw yr Arglwydd.


Talaf fy addunedau i'r Arglwydd:
yn awr yng ngŵydd ei holl bobl,

Yng nghynteddoedd tŷ yr Arglwydd:
yn dy ganol di O Jerwsalem. Molwch yr Arglwydd.

Cerddoriaeth: George Clement Martin (1844-1916)

YR EFENGYL

Codwch os gwelwch yn dda er mwyn datgan Cyfarchiad yr Efengyl ar ôl y côr:



Côr Alleluia, alleluia, alleluia.

Pawb **Alleluia, alleluia, alleluia.**

Côr Speak, Lord, for your servant is listening.
You have the words of eternal life.

Pawb **Alleluia, alleluia, alleluia!**

Gwrandewch Efengyl Crist yn ôl Sant Ioan, alelwia, alelwia.

Pawb **Gogoniant i ti, O Arglwydd, alelwia, alelwia!**

Wedi iddynt ei glywed, meddai llawer o'i ddisgyblion, "Geiriau caled yw'r rhain. Pwy all wrando arnynt?" Gwyddai Iesu ynddo'i hun fod ei ddisgyblion yn grwgnach am ei eiriau, ac meddai wrthynt, "A yw hyn yn peri tramgwydd i chwi? Beth ynteu os gwelwch Fab y Dyn yn esgyn i'r lle'r oedd o'r blaen? Yr Ysbryd sy'n rhoi bywyd; nid yw'r cnawd yn tycio dim. Y mae'r geiriau yr wyf fi wedi eu llefaru wrthych yn ysbryd ac yn fywyd. Ac eto y mae rhai ohonoch sydd heb gredu." Yr oedd Iesu, yn wir, yn gwybod o'r cychwyn pwy oedd y rhai oedd heb gredu, a phwy oedd yr un a'i bradychai. "Dyna pam," meddai, "y dywedais wrthych na allai neb ddod ataf fi heb i'r Tad beri iddo wneud hynny."

O'r amser hwn trodd llawer o'i ddisgyblion yn eu holau a pheidio mwyach â mynd o gwmpas gydag ef. Yna gofynnodd Iesu i'r Deuddeg, "A ydych chwithau hefyd, efallai, am fy ngadael?" Atebodd Simon Pedr ef, "Arglwydd, at bwy yr awn ni? Y mae geiriau bywyd tragwyddol gennyf ti, ac yr ydym ni wedi dod i gredu a gwybod mai ti yw Sanct Duw."

Ioan 6. 60-69

Dyma Efengyl yr Arglwydd.

Pawb **Moliant i ti, O Grist.**


Y BREGETH

Y Wir Barchedig Mary Stallard
Esgob Llandaf

YR YMBILIAU

Penlinio neu Eistedd.

Y Esgob Gweddïwn.



Lau - da - te om-nes gen - tes, lau - da - te Do-mi - num. Lau-
da - te om-nes gen - tes, lau - da - te Do-mi - num

Côr Laudate omnes gentes, laudate Dominum.
Laudate omnes gentes, laudate Dominum.

Pawb **Laudate omnes gentes, laudate Dominum.**
Laudate omnes gentes, laudate Dominum.

O Dduw ein Tad, yr wyt yn ein cynysgaeddu ag amrywiol ddoniau i'n galluogi i gydweithio yng ngwasanaeth dy Fab. Gweddïwn dros yr Eglwys ledled y byd ac yn enwedig dros Dalaith Cymru. Bendithia ein harweinwyr a dyro iddynt ddoethineb a deall, gwir gariad at bobl, a gostyngeiddrwydd ger dy fron di. Nertha Mary ein Heskob yn ei gweinidogaeth i bobl ac Ardaloedd Gweinidogaethol yr esgobaeth hon, fel y bo iddynt arwain yn ddewr, gofalu yn gariadus ac addysgu yn ffyddlon i'n galluogi ni i gyd i fod yn wir dystion i Ti yn y byd.

Pawb **Laudate omnes gentes, laudate Dominum.**
Laudate omnes gentes, laudate Dominum.

Bendithia'r rhai a etholwyd i gynrychioli pobl yr esgobaeth yn Senedd y Deyrnas Unedig a Senedd Cymru, ar Gyngor Dinas a Sir a Bwrdeistref Sirol, ar Gyngor Tre a Chymuned. Dyro iddynt weledigaeth i ddirnad y materion sydd o wir bwys, dewrder i sefyll yn gadarn dros eu hegwyddorion, a gonestrwydd ar air, gweithred a chymhelliad.

Pawb **Laudate omnes gentes, laudate Dominum.**
Laudate omnes gentes, laudate Dominum.

Deisyfwn dy fendith ar ein Heglwys Gadeiriol yn Llandaf ac ar bawb sy'n gweithio ynnddi a throsti. Deisyfwn dy fendith ar ein cyd-Gristionogion yn yr eglwysi eraill ac ar eu harweinwyr a'u gweinidogion. Bendithia'r cyfan a wnawn gyda'n gilydd yn dy Enw.

Pawb **Laudate omnes gentes, laudate Dominum.**
Laudate omnes gentes, laudate Dominum.

Ysbydola â'th gariad ac â'th drugaredd bawb sydd yn gwasanaethu cymunedau ein hesgobaeth. Calonoga hwy pan fo anawsterau yn eu llethu a dyro iddynt ddoethineb pan fo'r sefyllfa yn ymddangos yn anobeithiol. Gweddïwn dros bawb sydd yn ymwneud â bywyd diwydiannol, masnachol ac amaethyddol ein hesgobaeth. Cynorthwya hwy yn eu dyletswyddau i adlewyrchu dy ofal di dros bob agwedd ar fywyd, a galluoga hwy i ymddiddori o ddifrif ym mhob un y byddant yn ymwneud â hwy.

Pawb **Laudate omnes gentes, laudate Dominum.
Laudate omnes gentes, laudate Dominum.**

Gweddïwn dros athrawon a disgyblion ein prifysgolion, colegau ac ysgolion. Symud ymaith oddi wrthynt bob rhwystr i ddod at y gwirionedd ac, o'i ddarganfod, ei ddefnyddio er lles yr holl ddynolryw. Gweddïwn dros bawb sydd yn gweini ar y claf a'r cystuddiol o gorff, meddwl ac ysbryd, mewn ysbytai, cartrefi nyrsio, cartrefi preswyl a'u cartrefi eu hunain. Galluoga hwy i gydweithio â thi yn y weinidogaeth iacháu, a nertha hwy i rannu yn y gwaith o adfer pobl i gyflawn iechyd.

Pawb **Laudate omnes gentes, laudate Dominum.
Laudate omnes gentes, laudate Dominum.**

The Bishop prays:

Hollalluog a thragwyddol Dduw, sy'n llywodraethu pob peth yn y nef a'r ddaear: yn dy drugaredd gwrando erfyniau dy bobl, a dyro i'r esgobaeth hon bob peth angenrheidiol i'w lles ysbrydol; a thrwy arweiniad dy Ysbryd Glân dwg ni oll i fod o un galon ac un meddwl yng nghymdeithas dy Eglwys sanctaidd; er anrhydedd a gogoniant dy enw,

Pawb Dad trugarog,
**derbyn y gweddïau hyn
er mwyn dy Fab,
ein Gwardwr Iesu Grist. Amen.**

LITWRGI'R SACRAMENT

Sefyll.

Y TANGNEFEDD

Archesgob Ni yw corff Crist, deun ynghyd yn ei enw a rhannwn ei dangnefedd.
Tangnefedd yr Arglwydd a fo gyda chwi bob amser. Alelwia, alelwia!

Pawb **A hefyd gyda thi. Alelwia, alelwia!**

Mae'r bobl yn cyfnewid arwydd o dangnefedd.

EMYN YR OFFRWM



Pawb

1.
Lord, who in thy perfect wisdom
Times and seasons dost arrange,
Working out thy changeless purpose
In a world of ceaseless change;
Thou didst form our ancient nation,
Guiding it through all the days,
To unfold in it thy purpose
To thy glory and thy praise.

2.
Draw i'n glannau pell a thywyll
Dan eu cur gan donnau'r môr,
Anfon wnaethost, o'th fawr gariad,
Hanes am dy Groes, fy Iôr.
Sant ac arwr, er y gorthrwm,
Roes d'Efengyl i'n hoff bau,
Ninnau'n derbyn ffrwyth eu hymdrech
A'u clodforwn a'u mawrhau.

3.
Lord, we hold in veneration
All the saints our land has known,
Bishops, priests, confessors, martyrs,
Standing now around thy throne;
Dewi, Dyfrig, Deiniol, Teilo-
All the gallant saintly band,
Who of old by prayer and labour
Hallowed all our fatherland.

4.
Still thine ancient purpose standeth
Every change and chance above;
Still thine ancient Church remaineth,
Witness to thy changeless love.
Grant us vision, Lord, and courage
To fulfil thy work begun;
In the Church and in the nation,
King of kings, thy will be done.

Geiriau: Timothy Rees (1874-1939)
Esgob Llandaf 1931-1939

Cerddoriaeth: BLAENWERN
William Penfro Rowlands (1860-1937)

Y DIOLCH

Archesgob Yr Arglwydd a fo gyda chwi.
Pawb **A hefyd gyda thi.**

Pawb Dyrchefwch eich calonnau.
Yr ydym yn eu dyrchafu at yr Arglwydd.

Pawb Diolchwn i'r Arglwydd ein Duw.
Iawn yw rhoi ein diolch a'n clod.

Iawn yn wir,
ein dyletswydd a'n llawenydd
bob amser ac ym mhob lle yw rhoi diolch a moliant i ti,
Dad sanctaidd, Frenin nefol, hollalluog a bythfywiol Dduw,
trwy Iesu Grist dy unig Fab ein Harglwydd:

A gysegrodd y rhai a dderbyniodd ei alwad
i ddilyn ffordd y groes.
Trwyddo ef gelwaist
y rhai a ordeiniwyd i weinidogaethu yn dy Eglwys
i gyhoeddi'r Newyddion Da,
i ofalu am dy bobl
ac i weinyddu mewn llawenydd
sacramentau dy deyrnas.

Felly, gydag angylion ac archangylion,
a holl gwmpeini'r nef
cyhoeddwn dy enw mawr a gogoneddus,
gan dy foli bob amser a dweud:

Côr Sanctus, Sanctus, Sanctus,
Dominus Deus Sabaoth.
Pleni sunt coeli et terra gloria tua;
Hosanna in excelsis.

*Sanctaidd, sanctaidd, sanctaidd Arglwydd,
Duw gallu a nerth,
nef a daear sy'n llawn o'th ogoniant.
Hosanna yn y goruchaf.*

Benedictus qui venit
in nomine Domini.
Hosanna in excelsis.

*Bendigedig yw'r hwn sy'n dyfod
yn enw'r Arglwydd
Hosanna yn y goruchaf.*

Penlinio.

Archesgob Clyw ni, Dad nefol, trwy Iesu Grist dy Fab ein Harglwydd. Trwyddo ef derbyn ein haberth o foliant, a chaniatâ, trwy nerth dy Ysbryd, i'r rhoddion hyn o fara a gwin fod i ni ei gorff a'i waed ef; y nos y bradychwyd ef, cymerodd fara a rhoi diolch i ti; fe'i torrodd a'i roi i'w ddisgyblion, gan ddweud,

Cymerwch, bwyteuach; hwn yw fy nghorff a roddir drosoch.
Gwnewch hyn er cof amdanaf.

Yr un modd, ar ôl swper, cymerodd y cwpan a rhoi diolch i ti; fe'i rhoddodd iddynt, gan ddweud,

Yfwch o hwn, bawb; oherwydd hwn yw fy ngwaed i, gwaed y cyfamod newydd,
a dywelltir drosoch a thros lawer er maddeuant pechodau.
Gwnewch hyn, bob tro yr yfwch ef, er cof amdanaf.

Diacon Gadewch inni gyhoeddi dirgelwch y ffydd:
Pawb **Bu farw Crist.**
Atgyfododd Crist.
Daw Crist mewn gogoniant.

Archesgob Felly, O Dad, gan gofi o angau achubol ac atgyfodiad dy Fab, offrymwn i ti mewn diolch y bara hwn a'r cwpan hwn, dy roddion inni, a diolchwn i ti am ein cyfrif yn deilwng i sefyll yn dy wydd a'th wasanaethu. Anfon dy Ysbryd Glân ar bawb ohonom sy'n rhannu'r bara hwn a'r cwpan hwn. Cryfha ein ffydd, gwna ni'n un a chroesawa ni a'th holl bobl i deyrnas ogoneddus dy Fab. Trwyddo ef, gydag ef, ac ynddo ef, yn undod yr Ysbryd Glân eiddot ti, Dad hollalluog, yw'r holl anrhydedd a'r gogoniant yn oes oesoedd.

Pawb **Amen.**

Archesgob Gweddiwn yn hyderus ar y Tad:

Pawb **Ein Tad,**
yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw,
deled dy deyrnas,
gwneled dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol
a maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.
Canys eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu, a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.

Y CYMUN

Pawb Yr ydym yn torri'r bara hwn i rannu yng Nghorff Crist.
A ninnau'n llawer, un corff ydym,
gan ein bod ni oll yn rhannu'r un bara.

Côr Agnus Dei,
qui tollis peccata mundi:
miserere nobis.

Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
trugarha wrthym.

Agnus Dei,
qui tollis peccata mundi:
dona nobis pacem.

Oen Duw,
sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd:
dyro inni dangnefedd.

Archesgob Iesu yw Oen Duw sy'n dwyn ymaith bechodau'r byd.
Gwyn eu byd y rhai a elwir i'w swper.

Pawb **Arglwydd, nid wyf yn deilwng i'th dderbyn,**
ond dywed y gair a chaf fy iacháu.

Gall y rhai sy'n dymuno derbyn Cymun neu fendith fynd ymlaen pan rydd y stiwardiaid arwydd iddynt.
Gweinyddir y sacrament a'r geiriau hyn:

Corff Crist. **Amen.**
Gwaed Crist. **Amen.**

Cenir y motetau isod yn ystod y Cymuno:

Côr Gosod fi fel sêl ar dy galon, fel sêl ar dy fraich;
oherwydd y mae cariad mor gryf â marwolaeth,
Ni all dyfroedd lawer ddiffodd cariad,
ac ni all afonydd ei foddi.

Geiriau: Caniad Solomon 8. 6-7

Cerddoriaeth: Eleanor Daley (b. 1955)

Côr Lord of wisdom, lord of truth, lord of justice, lord of mercy.
Walk beside us down the years, 'till we see you in your glory.

Striving to attain the heights.
Turning in a new direction.
Entering a lonely place.
Welcoming a friend or stranger.

I am here, I am with you.
I have called, do you hear me?
I am here, I am here, I am with you.

Silver is of passing worth, gold is not of constant value.
Jewels sparkle for a while.
What you long for is not lasting.

I am here, I am with you.
I have called, do you hear me?
I am here, I am here.
I am with you.

Rulers govern under me.
With my insight and my wisdom.
Those who know me know my love.
Those who seek me find their answer.

I am here, I am with you.
I have called, do you hear me?
I am here, I am here.
I am with you.

Geiriau: Addasia o'r Diarhebion 8
gan Y Parchedig Ganon Michael Hampel
Is-ddeon a Y Canon Prif-Gantor, Eglwys Gadeiriol Durham

Cerddoriaeth: The Call of Wisdom
Will Todd (b. 1970)

Aros are ich eistedd.

EMYN



Pawb

O God, you search me and you know me.
All my thoughts lie open to your gaze.
When I walk or lie down you are before me:
Ever the maker and keeper of my days.

You know my resting and my rising,
You discern my purpose from afar,
And with love everlasting you besiege me:
In ev'ry moment of life or death, you are.

Before a word is on my tongue, Lord,
You have known its meaning through and through.
You are with me beyond my understanding:
God of my present, my past and future, too.

Although your Spirit is upon me,
Still I search for shelter from your light.
There is nowhere on earth I can escape you:
Even the darkness is radiant in your sight.

For you created me and shaped me,
Gave me life within my mother's womb.
For the wonder of who I am, I praise you:
Safe in your hands, all creation is made new.

Geiriau: yn seiliedig ar Salm 139

Cerddoriaeth: Bernadette Farrell (b.1957)

Y GOLLWNG

Sefyll.

Archesgob Diolchwch i'r Arglwydd, oherwydd graslon yw ef:
Pawb **ei gariad sy'n dragywydd.**

Dduw'r gwirionedd, yr ydym wedi gweld â'n llygaid a chyffwrdd â'n dwylo fara'r bywyd. Cryfha ein ffydd fel y tyfwn mewn cariad atat ti, ac at ein gilydd, trwy Iesu Grist, ein Harglwydd atgyfodedig. Amen.

Y FENDITH DDWYS

Archesgob Yr Arglwydd a fo gyda chwi.
Pawb **A hefyd gyda thi.**

Bydded i'r Ysbryd,
a fu'n ymsymud ar wyneb y dyfroedd pan grewyd y byd,
anadlu ynoch y bywyd sy'n deillio ohono.
Pawb **Amen.**

Bydded i'r Ysbryd,
a fu'n amgylchu'r Forwyn pan ddaeth y Mab tragwyddol i'n plith,
eich gwneud yn llawen yng ngwasanaeth yr Arglwydd.
Pawb **Amen.**

Bydded i'r Ysbryd,
a roes yr Eglwys ar dân Ddydd y Pentecost,
fywhau'r byd â chariad y Crist atgyfodedig.
Pawb **Amen.**

A bendith Duw hollalluog,
y Tad, ✠ y Mab, a'r Ysbryd Glân a fo yn eich plith ac a drigo gyda chwi yn wastad.
Pawb **Amen.**

Ewch mewn tangnefedd i garu a gwasanaethu'r Arglwydd. Alelwia, alelwia.
Pawb **Yn enw Crist. Alelwia, alelwia!**

YR EMYN OLAF



Pawb

Go forth and tell! O church of God, awake!
God's saving news to all the nations take;
proclaim Christ Jesus, saviour, Lord, and king,
that all the world his worthy praise may sing.

Go forth and tell! God's love embraces all;
he will in grace respond to all who call:
how shall they call if they have never heard
the gracious invitation of his word?

Go forth and tell! The doors are open wide:
share God's good gifts let no one be denied;
live out your life as Christ your Lord shall choose,
your ransomed powers for his sole glory use.

Go forth and tell! O church of God, arise!
go in the strength which Christ your Lord supplies;
go till all nations his great name adore
and serve him, Lord and king for evermore.

Geiriau: James E. Seddon (1915-83)

Cerddoriaeth: WOODLANDS
Walter Greatorex (1877-1949)


Parhewch i sefyll tra bo'r Orymdaith yn gadael yr Eglwys Gadeiriol

UNAWD TERFYNOL AR YR ORGAN

Final o *Symphonie I*

Louis Vierne (1870-1937)

Mae croeso i bawb ymuno ag Esgob Mary yng Nghapel Mair ar ôl y gwasanaeth am gacen, gwin a diodydd meddal.



Copyright Acknowledgements

An Order for the Holy Eucharist 2004, material from which is included in this service is copyright © Church in Wales Publications 2004.
Common Worship: Times and Seasons, material from which is included in this service is copyright © The Archbishops' Council 2006
Hymns are reproduced under CCL licence number 829936.